**Teitl Swydd:**

Llysgennad Cyfoedion prosiect Cyflogaeth â Chymorth





**Lle byddwch chi'n gweithio:**
Gwynedd & Sir Fon



**I bwy y byddwch chi'n adrodd i:**
Rheolwr gweithrediadau




**Oriau:**
Hyd at 16 awr yr wythnos






**Math o Swydd:**
Rhan amser/ Rhannu swydd

**Beth yw'r swydd hon?**

Byddwch yn helpu pobl ag anableddau ddysgu am y byd gwaith, sut i ddod o hyd i swyddi a'u cadw. Byddwch yn rhannu eich profiad eich hun i helpu eraill i deimlo'n hyderus am weithio.



**Beth fyddwch chi'n ei wneud?**

**Helpu Eraill (Cymorth Cymheiriaid):**

- Cefnogi pobl eraill ag anableddau dysgu drwy rannu eich stori.



- Helpu nhw i deimlo'n hyderus a dysgu sgiliau newydd ar gyfer y gwaith.



- Gweithio gyda hyfforddwyr gwaith i ddysgu pethau fel sut i ysgrifennu CV neu sut i baratoi ar gyfer cyfweliadau.



**Siarad â chyflogwyr a chwmnïau :**

- Siarad â chyflogwyr a chwmnïau am sut y gallant gyflogi pobl ag anableddau dysgu a pham y dylent gyflogi pobl ag anableddau dysgu.



- Mynd i ffeiriau gwaith, digwyddiadau a chyfarfodydd i siarad am eich gwaith a'r gwaith Cyflogaeth â Chymorth.
- Rhannu eich profiad gyda pobl yn y digwyddiadau hyn.



**Helpu i wella'r gwasanaeth:**

- Helpu y tîm i ddeall beth sy'n gweithio'n dda sut gallwn wella'r prosiect er mwyn helpu mwy o bobl.



- Mynd i gyfarfodydd tîm i rannu syniadau.




**Hyrwyddo'r Gwasanaeth (Marchnata a Chyfathrebu):**

- Helpu y gwasanaeth i hyrwyddo ei hun drwy rannu straeon ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau.



- Siarad â phobl mewn digwyddiadau a chyfarfodydd, yn wyneb i wyneb ac ar-lein.




**Help gyda thasgau (gwaith gweinyddol swyddfa):**

- Helpu gyda gweithdai cynllunio, casglu gwybodaeth, a thasgau bach eraill.



- Gweithio gyda'r tîm i drefnu digwyddiadau a hyfforddiant.




## Pa sgiliau sydd eu hangen arnoch?

**Mae'n rhaid i chi gael:**

- anabledd dysgu a phrofiad o ddod o hyd i waith neu gadw swydd.



- Rydych chi'n hoffi helpu eraill ac yn hapus i siarad am eich stori.



- Rydych chi'n dda am siarad â phobl ac yn gallu gweithio mewn grŵp.



- Gallwch ddefnyddio cyfrifiadur (sgiliau sylfaenol, fel anfon negeseuon e-bost neu ddefnyddio galwadau fideo).



**Byddai'n wych pe baech chi hefyd yn:**

- Gallu Siarad Cymraeg



| | |
|---|---|
| • Profiad o siarad â grwpiau neu mewn digwyddiadau.<br><br>• Siarad â phobl newydd am swyddi. | <br> |
| **Pam mae'r swydd hon yn wych:**<br><br>• Byddwch yn helpu pobl eraill i deimlo'n hyderus am weithio.<br><br>• Byddwch yn cwrdd â phobl newydd, fel cyflogwyr a grwpiau cymunedol.<br><br>• Byddwch yn dysgu sgiliau newydd ac yn cael hyfforddiant.<br><br>• Byddwch yn falch o wybod eich bod yn helpu eraill i ddod o hyd i waith. | <br><br><br> |
| **Cenhadaeth Agoriad Cyf:**<br>Rydym yn helpu pobl ag anableddau i fyw eu bywyd i’r mwyaf trwy eu cefnogi i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. | agoriadcyf<br>realising your potential<br>gwireddu eich potensial |